# Cymorth a chefnogaeth ychwanegol

Mae'r dudalen hon yn cynnwys cymorth ac adnoddau ychwanegol i'r rhai sy'n gwerthu neu'n dosbarthu bwyd i'r cyhoedd. Darllenwch yr holl dudalennau yn y canllaw hwn i sicrhau bod gennych yr wybodaeth sydd ei hangen arnoch i redeg eich busnes bwyd.

A oedd yr wybodaeth ar y dudalen hon yn ddefnyddiol? Rhannwch eich adborth.

### Gall eich busnes gael cyngor ar y canlynol:

- treth
- ysgrifennu cynllun busnes
- cyllid
- safleoedd busnesau ac ardrethi busnes

Gan ddibynnu ar yr hyn y mae eich busnes bwyd yn ei wneud, efallai y bydd gennych gyfrifoldebau eraill.

### Cofiwch wirio:

- a oes angen trwyddedau, er enghraifft i werthu bwyd neu i fasnachu ar y stryd
- a oes angen yswiriant
- bod gan eich cyflogeion yr hawl i weithio yn y DU. Mae gan bob cyflogwr yn y DU gyfrifoldeb i atal gweithio anghyfreithlon. Rydych yn gwneud hyn trwy gynnal gwiriadau 'hawl i weithio' cyn cyflogi rhywun.

### Mae hefyd reolau y mae'n rhaid i chi eu dilyn os ydych yn:

- gwerthu bwyd ar-lein
- mewnforio ac allforio bwyd
- storio neu ddefnyddio gwybodaeth bersonol – mae hyn yn berthnasol i wybodaeth am staff, cwsmeriaid a deiliaid cyfrifon

### Cymru

Mae Busnes Cymru yn wasanaeth am ddim sy'n rhoi cefnogaeth a chyngor diduedd, annibynnol i bobl sy'n dechrau, yn rhedeg ac yn tyfu busnes yng Nghymru.

### Lloegr

Mae GOV.UK yn cynnig gwybodaeth ac adnoddau defnyddiol ar gyfer dechrau busnes.

Ar gyfer canllawiau busnes gyffredinol, gallwch gysylltu â'r Llinell Gymorth cenedlaethol ar gyfer Cymorth Busnes. Yn ogystal, gallwch ddod o hyd i gymorth, cyngor a ffynonellau cyllid am ddim trwy eich 'hyb twf' lleol.

## Gogledd Iwerddon

Mae nibusinessinfo.co.uk yn wasanaeth am ddim a gynigir gan Invest Northern Ireland. Dyma'r sianel swyddogol ar-lein i gael cyngor a chymorth busnes i ddechrau busnes.

## Cofiwch

Pan fyddwch yn dechrau busnes bwyd newydd, neu'n cymryd yr awenau mewn busnes sy'n bodoli eisoes, mae rhaid i chi gofrestru gyda'ch awdurdod lleol.